

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGHORYDD

Dyma adroddiad y Cyngorydd Sêra Evans ynglŷn â'i gweithgareddau allweddol dros y flwyddyn. Mae'n cael ei gyhoeddi er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

Cyngorydd: Sêra Evans

Ardal etholiadol: Treorci

Grŵp: Plaid Cymru

Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau

Aelod o'r Cyngor Llawn
Aelod o'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc, Rhondda Cynon Taf
Cadeirydd y Llywodraethwyr Ysgol Gynradd y Parc
Fforwm Canol Tref Treorci
Pwyllgor Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd Treorci
Pwyllgor Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd Ynys-wen
Grŵp Gweithredu Llifogydd Dŵr Cymru (Ward Treorci)
Pwyllgor Cyngori Cronfa Fferm Wynt Treorci

Adran 2: Gweithgaredd yn yr Etholaeth

Rydw i wedi gwneud gwaith achos ar amrywiaeth o bynciau ar ran etholwyr. Roedd y mwyafrif o'm gwaith achos yn ymwneud â chwynion am eiddo gwag, fandaliaeth, tipio anghyfreithlon, materion parcio a draenio. Roedd materion eraill yn cynnwys goleuadau stryd ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Rydw i wedi adrodd tramgwyddau o'r rheoliadau cynllunio. Rydw i wedi ymdrin â nifer o ymholiadau ynghylch casgliadau sbwriel. Rydw i wedi cysylltu â Swyddogion ynglŷn â cheisiadau i gynnal ffair. Rydw i wedi adrodd am geudyllau.

Rydw i wedi siarad yn rheolaidd yn y Cyngor ac mewn cyfarfodydd pwyllgor ar faterion yn ymwneud â Ward Treorci a RhCT yn gyffredinol.

Rydw i wedi rhoi geiradaon ar gyfer swyddi a geiradaon cymeriad.

Rydw i wedi annerch nifer o gymdeithasau lleol fel Cymdeithas Gelf Ystradyfodwg ac rydw i wedi mynychu nifer o achlysuron cymunedol.

Rydyn ni wedi cyhoeddi Cylchlythyrau rheolaidd yn rhoi gwybodaeth i etholwyr sy'n ymwneud â materion a allai fod o ddiddordeb iddyn nhw.

Fel yr addewais, rydw i wedi gwneud rhoddion sy'n cyfateb i doriad 5% gwirfoddol yn fy lwfans blynyddol trwy gydol y flwyddyn, i fudiadau gwirfoddol ac elusennol lleol i gynorthwyo yn eu gwaith, megis Cymdeithas Gelf Ystradyfodwg, Dylan's Den, Cylch Meithrin Treorci, Clwb Garddio Ynys-wen, Clwb Fowlio Pencelli, Clwb Bechgyn a Chlwb Merched Treorci, Rhondda Kindercare, Welsh Hearts a Neuadd Cwm-Parc.

Rydw i'n parhau i frwydro i wella llif traffic yn Stag Square yn Nhref Treorci, ac wedi chwarae rhan weithredol yn yr ymarfer ymgynghori o ran y gwelliannau arfaethedig. Mae hyn yn parhau i fod yn fater parhaus i'r Ward. Rydw i wedi cyfarfod â Swyddogion i drafod y cyfyngiadau aros newydd yng

Nghanol Tref Treorci, ac rydw i'n aml yn adrodd am faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â'r cyfyngiadau.

Mae gen i berthynas dda gyda'n Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu Lleol a'r Heddlu'n gyffredinol ac maen nhw'n ymateb yn brydlon i faterion sy'n gyfrifoldeb iddyn nhw.

Rydw i wedi ymgyrchu am well cyfleusterau meysydd chwarae ym meysydd chwarae Treorci a Chwm-parc ac wedi cymryd rhan yn yr achlysur Helfa Wyau Pasg gyntaf ym Mharc Treorci.

Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Roeddwn i'n rhan o grŵp Fforwm Canol y Dref a drefnodd achlysur Nadolig Treorci ac a gyhoeddodd gynau goleuadau'r Nadolig. Yn ddiweddar, rydw i wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch cael Ardal Gwella Busnes ar gyfer canol y dref. Mae gobaith y byddwn ni'n gallu cefnogi Siambr Fasnach Treorci i gael Ardal Gwella Busnes yng nghanol y dref.

Rydw i'n eistedd ar Bwyllgor Coffa'r Blits Cwm-parc mewn rôl ymgynghorol. Rydw i wedi gwahodd Swyddogion y Cyngor i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor i roi cyngor ar y cynllun.

Adran 4: Dysgu a Datblygu

Rydw i wedi mynychu nifer o sesiynau hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr sy'n berthnasol i fy rôl fel Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd y Parc.

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

Cynorthwyais drigolion yn ystod y cyfnod o eira trwm a threfnais osod bin graean ychwanegol yn yr Ynys-wen.

Rydw i wedi ymgysylltu â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Addysg a Thraffig ynglŷn â phroblemau pharcio a gollwng plant yn Ysgol Gynradd Gymraeg Ynys-wen ac Ysgol Gynradd y Parc. Rydw i'n gweithio gyda'r Heddlu a Swyddogion i fynd i'r afael â phroblemau yn y ddau leoliad.

Llofnod y Cynghorydd: S. M. Evans

Dyddiad: 23.5.2018